

16 Rhagfyr 2011

Annwyl gyfaill

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ddogfen ymgynghorol ar Ofal Preswyl i Bobl Hŷn. Mae'r cyngor a gynigir isod yn seiliedig ar ein cylch gorchwyl o dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

1. Cred y Bwrdd fod dwy thema graidd yn sail i'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, sef;
 - bod gwasanaeth sy'n seiliedig ar ddefnyddwyr yn golygu gwasanaeth dwyieithog;
 - drwy ddarparu'r math yma o wasanaeth, parchu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol, bod darparwr y gwasanaethau yn cynnig dewis ieithyddol i ddefnyddiwr(wyr) y gwasanaeth.
2. Er bod y ddarpariaeth yn y canllaw hwn yn berthnasol i bob grŵp o ddefnyddwyr, mae'n cydnabod mai pobl hŷn yw'r grŵp mwyaf tebygol o fod yn symud o ysbyty i leoliad gofal. Mae'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2003)* yn nodi "*Ymhlith oedolion, tuedda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg fod yn bobl hŷn o hyd ac ar gyfer yr henoed sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf, gall anawsterau ychwanegol godi wrth gyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer yr angen i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg*"¹. Nid oes unrhyw gyfeiriad at anghenion pobl hŷn sy'n siaradwyr Cymraeg yn y ddogfen, na phwysigrwydd darparu gwasanaethau yn y Gymraeg iddynt.
3. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Gyngor Defnyddwyr Cymru yn 2000 adnabuwyd pedwar grŵp lle y gallai diffyg gofal yn eu dewis iaith eu gwneud nhw'n fwy bregus fyth. Mae yna "*achosion gyda chleifion sydd yn siarad Cymraeg lle na allant gael eu trin yn effeithiol ond drwy eu hiaith gyntaf neu yn eu dwy iaith. Mae hyn yn arbennig o wir gyda rhai sydd yn derbyn therapi siarad a iaith ac ar gyfer y grwpiau canlynol: pobl â phroblemau iechyd meddyliol; pobl ag anabledau dysgu ac anghenion arbennig eraill; pobl hŷn a phlant ifanc*".²
4. Yn y degawd ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw gwelwyd newidiadau fesul cam. Ond mae'r grwpiau hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol gan fod cynifer yn parhau i fethu â derbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf neu yn eu dwy iaith. Mae yn siomedig felly nad oes

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2003* 9:13

² Misell, A. (2000) *Cymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd: Ehangder, Natur a Digonolrwydd Darpariaeth Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*

unrhyw gyfeiriad wedi ei wneud at anghenion siaradwyr Cymraeg yn ystod y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty i leoliad gofal. Mae urddas a pharch ac ansawdd y gwasanaeth yn allweddol i ansawdd y gofal a dderbynnir. Dylai darparu gwasanaethau sy'n ieithyddol sensitif ac yn ymateb i anghenion defnyddwyr hefyd fod yn rhan o'r agenda hwn.

5. Gall iaith hefyd fod yn ffactor a all arwain at ynysu ac unigrwydd h.y. bod y gallu i siarad Cymraeg neu fod yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, a bod heb ddarpariaeth yn y ddewis iaith, yn gallu arwain at unigrwydd ac ynysu. Dylai hyn fod yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â lleoli claf mewn lleoliad gofal. Wrth asesu anghenion cleifion dylid hefyd asesu anghenion ieithyddol, a diwallu hynny, ynghyd â'u hanghenion eraill, wrth eu lleoli mewn lleoliad gofal.
6. Pan ddarperir gwybodaeth i gleifion am leoliadau gofal posibl, dylid hefyd nodi pa rai sydd yn darparu gwasanaeth dwyieithog. Byddai nodi nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg, a chanran y trigolion eraill sy'n siaradwyr Cymraeg yn bwysig wrth gynllunio gwasanaeth cyflawn. Bydd hyn yn galluogi cleifion i ddewis cartrefi gofal posibl fydd yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog iddynt. Argymhellodd y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru³ yn ei hadroddiad diweddaraf y dylai'r Llywodraeth fod yn *"hyrwyddo cymorth hunangyfeiriedig, gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwybodaeth ac eiriolaeth dda ar gael i lywio dewisiadau pobl"*.
7. Wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i gleifion sy'n wynebu symud i leoliad gofal mae angen i'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdod Lleol, ac unrhyw sefydliadau perthnasol eraill, weithio mewn partneriaeth. Waeth pwy yw'r prif bartneriaid, dylai'r iaith fod yn ystyriaeth graidd a dylid ei chynnwys yn y broses o gynllunio'r gwasanaethau hyn.
8. Dylid rhoi camau ar waith i sicrhau bod pob sefydliad o fewn partneriaeth yn cydymffurfio â'u Cynlluniau Iaith eu hunain neu Gynllun Iaith y corff sy'n arwain lle nad oes Cynllun gan y lleill. Mae gwasanaethau yn newis iaith defnyddiwr yn rhan annatod o wasanaeth gofal cyfannol, ac felly mae'n hanfodol y darperir gofal a gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg a leolir mewn lleoliadau gofal.
9. Gyda phwyslais cynyddol ar bartneriaethau â'r trydydd sector ac yn achos cartrefi a lleoliadau gofal, y sector breifat, mae'n gallu peri anhawster o safbwynt darparu gwasanaethau dwyieithog. Mae dyletswydd ar gyrf ff cyhoeddus i sicrhau bod eu hymrwymadau ieithyddol yn dilyn y gwasanaeth neu'r arian yn nhermau'r darparwyr neu'r partneriaethau sydd ynghlwm â contract. Felly os mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am gostau claf sy'n siarad Cymraeg, mae hefyd dyletswydd ar yr Awdurdod, o dan ei gynllun iaith Gymraeg statudol, i fod yn sicrhau darpariaeth ddwyieithog mewn lleoliad gofal i'r claf hwnnw.
10. Mae gan bob partneriaeth a sefydliad gyfrifoldeb i gofnodi, cydlynu, parchu a chynllunio ar gyfer dewis iaith eu defnyddwyr. Mae hyn yn berthnasol iawn yn y cyd-destun hwn yn enwedig o safbwynt sut mae pobl yn symud trwy wasanaethau. Dylid gofalu, nid yn unig i barchu dewis iaith wrth ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol ond hefyd yn ystod y broses o drosglwyddo defnyddwyr o'r ysbyty i leoliad gofal.
11. Pwysig yw nodi'r angen i sicrhau bod gweithwyr y lleoliadau yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith berthnasol. Bydd hyn yn eu harfogi gyda'r sensitifrwydd a'r wybodaeth angenrheidiol i ddarparu yn unol ag anghenion siaradwyr Cymraeg. Dylid hefyd gymryd pob

³ Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, *Gweithredu'r Weledigaeth Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru t.7*

cyfle wrth i weithwyr gael eu hyfforddi i ddatblygu a gwella sgiliau iaith er mwyn gallu diwallu anghenion y defnyddwyr. Wrth drafod symud o'r ysbyty i leoliad gofal dylai'r Cydlynnydd Gofal fod ymwybodol o anghenion ieithyddol claf, ac yn gallu darparu gwybodaeth berthnasol am hynny am leoliadau gwahanol yn yr ardal.

12. Cyhoeddwyd pecyn cymorth "Rhoi Llais i Bobl Hŷn: Urddas mewn Gofal" gan Lywodraeth Cymru fis Gorffennaf 2011 ac yno pwysleisir pwysigrwydd delio gyda phobl yn eu dewis iaith: "I lawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae iaith yn fwy na dim ond mater o ddewis – mae'n fater o angen".⁴
13. Mae'r pecyn cymorth hwnnw yn cynnig arweiniad defnyddiol iawn wrth ddwyn y gwaith hwn yn ei flaen:

"Urddas yw un o hanfodion gofal o safon. Wrth gydnabod urddas unigolion, bydd hynny'n gymorth i gynnal eu hiechyd, eu lles a'u hannibyniaeth. Ac wrth ystyried cyd-destun dwyieithog unigryw Cymru a'i siaradwyr, a phwysigrwydd iaith a dewis iaith o ran cynnal darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol o safon, mae materion penodol y mae angen eu hystyried wrth fwrw ymlaen â'r agenda urddas yng Nghymru. Mae parchu urddas mewn gofal yn cynnwys rhoi gwerth ar unigolion ac edrych ar y byd o'u safbwynt hwy. Mae rôl bwysig i iaith o ran sefydlu a mynegi safbwynt neu hunaniaeth o'r fath. Felly, mae ymateb yn sensitif i iaith a dilyn trefn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn elfen hanfodol o gynnal urddas mewn gofal mewn sefyllfa ddwyieithog".⁵

Hyderwn y bydd y wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i chi wrth gynnal y rhan hon o'ch adolygiad. Byddem yn falch o gyfarfod â chi i drafod unrhyw un o'r materion uchod, neu faterion yn ymwneud ag iaith, pobl hŷn a'r agenda urddas a pharch.

Yn gywir

Gwyn Derfel
Swyddog Datblygu
Uned Iechyd Gofal a'r Trydydd Sector

⁴ Llywodraeth Cymru (2011), Rhoi Llais i Bobl Hŷn: Urddas mewn Gofal t.21

⁵ Llywodraeth Cymru (2011), Rhoi Llais i Bobl Hŷn: Urddas mewn Gofal t.24